Sganiwch y côd QR yma er mwyn mynd i'n gwefan.
Neu chwiliwch amdanom.

glannauogwr.cymru

Y Suliau Nesaf

Tachwedd 26

Penybont 9:45 | Porthcawl 11:15
Parch Lona Roberts, Caerdydd | Bydd manylion am bwy fydd yn arwain yn fuan

Rhagfyr 3

Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

Tachwedd 10

Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

Gofalaeth Glannau Ogwr

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr
4 Derwen Rd, Bridgend CF31 1LH

Tabernacl, Porthcawl
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

Gweinidog: Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, Penybont
Ffôn: 01656 711162
Symudol: 07535904599
ebost: dylan89rhys@gmail.com

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr
KOINONIA
Gofalaeth Glannau Ogwr
Rhifyn 72 **Tachwedd 19, 2023**

Hysbyseb Nadolig Eseia

Ydi hi rhy fuan i sôn am y Nadolig? Nid yn ôl y siopau a'r stryd fawr, sydd wedi bod yn dangos hysbysebion Nadolig ers oleiaf wythnos bellach. Ers i John Lewis greu hysbyseb Nadolig sydd a stori twymgalon tu ôl iddi, mae'r prif siopa a'r archfarchnadoedd am y gorau i drio dal ein sylw. Yn yr hysbysebion yn aml, maent yn trio gwerthu rhywbeth sydd yn gwbl angenrheidiol yn eu tyb nhw i ni brynu ar gyfer dydd Nadolig, yn anrhegion neu'n fwyd. Ond y mae hefyd edrych mlaen, a'r neges i ni baratoi at y ddydd y Nadolig.
Nid John Lewis a'r siopau oedd y cyntaf i greu hysbyseb Nadolig oherwydd mae gennym un hysbyseb Nadolig ddangosodd 700 mlynedd cyn y Nadolig cyntaf un. Sef Eseia 9. Mae'n bwysig ein bod yn atgoffa'n hunain yn aml o'r proffwydoliaethau hyn sydd i'w gael yn Eseia....

6Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog tangnefedd". Eseia 9:6

Yn y Saesneg y gair byddent yn ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebion Nadolig yw 'feel good adverts' onid yw'r adnodau hyn i ni heddiw yn 'Feel good' hefyd. Wrth i ni baratoi at yr Adfent ymhen yr wythnos, bydded i ni fod yn sicr o'r goleuni ddaeth i'n byd yn Iesu Grist.

Darlleniad – Eseia 9:2-7

2Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch
a welodd oleuni mawr;
y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew
a gafodd lewyrch golau.
3Amlheaist orfoledd iddynt,
chwanegaist lawenydd;
llawenhânt o'th flaen fel yn adeg y cynhaeaf,
ac fel y byddant yn gorfoleddu wrth rannu'r ysbail.
4Oherwydd drylliaist yr iau oedd yn faich iddynt,
a'r croesfar oedd ar eu hysgwydd,
a'r ffon oedd gan eu gyrrwr,
fel yn nydd Midian.
5Pob esgid ar droed rhyfelwr mewn ysgarmes,
a phob dilledyn wedi ei drybaeddu mewn gwaed,
fe'u llosgir fel tanwydd.
6Canys bachgen a aned i ni,
mab a roed i ni,
a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
Tad bythol, Tywysog heddychlon".
7Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth,
nac ar ei heddwch
i orsedd Dafydd a'i frenhiniaeth,
i'w sefydlu'n gadarn â barn a chyfiawnder,
o hyn a hyd byth.
Bydd sêl ARGLWYDD y Lluoedd yn gwneud hyn.

Ymarefrion y Ddrama Geni

Tachwedd 19
3:30yp – Bugeiliaid, Pentrefwyr, Mair a Joseff

Tachwedd 27 (Nos Lun)
6:30yh – 9yh Cast Llawn



CÔR TABERNACL &
CHÔR YSGOL GYNRADD PENCOED
GYDA JEFF HOWARD (ORGAN)

2023 CYNGERDD NADOLIG ELUSENNOL

ELW AT SHELTER CYMRU A GUIDE DOGS CYMRU

7.00 pm 12 RHAGFYR 2023

Capel Tabernacl
Heol Derwen, Penybont CF31 1LH

Stiwdio Ogwr

Mae'n fwriad eleni i recordio cyfarchion Nadolig a chalendr Adfent, fydd yn mynd i fyny ar y cyfryngau cymdeithasol pob dydd, felly os oes diddordeb dewch draw i recordio, i Stiwdio Ogwr. Dyma'r dyddiadau ar gyfer y recordio.

Dydd Llun 20/11/23
10yb-1yp

Dydd Llun 23/11/23
2yp-8yh

Dewch draw i weld y stiwdio.